


Canllaw Arferion Gorau ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol yng Nghymru sy'n cynorthwyo Plant sy'n hawlio lloches



Canolfan
Gyfreithiol
y Plant
Cymru

Children's
Legal
Centre
Wales

Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â cheisiadau am loches dan y gweithdrefnau safonol ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed. Nid ydynt yn ymdrin â'r gyfraith sy'n ymwneud â threfniadau cenedligrwydd penodol – megis y cynlluniau ar gyfer pobl o **Wcráin ac Afghanistan**. Er bod angen cyngor cyfreithiol unigol ym mhob achos, mae'n arbennig o bwysig i blant y mae'r cynlluniau hyn yn effeithio arnynt.

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at 'blant' fel rhai 0-17 oed, yn unol â diffiniad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r ddogfen hon yn ymdrechu i gynorthwyo gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio â phlant sy'n hawlio lloches. Mae'n cynnwys cyngor ar y materion penodol a all fod yn gysylltiedig â phlant sy'n cyrraedd y DU yn afreolaidd, a all gael eu hasesu am eu hoedran ac a all fod angen gweithio'u ffordd drwy'r system fewnfudo. Mae hefyd yn edrych ar gynllunio llwybr i rywun na fydd yn cael aros yn y DU.

Yma yng Nghymru, rydym yn cydnabod hawliau pob plentyn, o ble bynnag maent yn dod. Yr hyn sy'n cael blaenoriaeth, o flaen popeth, yw'r plant - sy'n cael eu gweld fel plant ac nid fel mewnfudwyr. Mae cyfraith Gofal Cymdeithasol Cymru wedi mabwysiadu **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989)**, sy'n golygu bod yn rhaid i staff Awdurdodau Lleol ystyried yr hawliau hyn, yn ogystal ag Erthyglau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (1951). Mae gan bob plentyn yr un hawliau o ran gofal cymdeithasol, llesiant a diogelu (SSWWA 2014: CA 1989).

Fel gweithwyr cymdeithasol sy'n ganolog i'w gofal, chi sydd yn y sefyllfa orau i helpu'r plant hyn i sicrhau eu bod yn cael yr help ymarferol, diwylliannol, meddygol a chyfreithiol sydd ei angen arnynt. Gallwch helpu i roi llais a rheolaeth i'r plant hyn drwy gynnig parch iddynt a gweithredu'n unol â Chod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru (2017), er enghraifft drwy ymddwyn ag uniondeb a gonestrwydd tuag atynt fel dinasyddion y dyfodol.

Guide contents

2. [Cyrraedd/Pwynt cyswllt cyntaf](#)
4. [Anghenion sylfaenol](#)
4. [Cyfieithu](#)
5. [Llety](#)
5. [Gwasanaethau Iechyd](#)
6. [Ystyriaethau Iechyd Meddwl](#)
7. [Gwybodaeth am eu Mamwlad](#)
7. [Addysg a Hyfforddiant](#)
9. [Masnachu mewn Pobl](#)
11. [Asesiadau Oedran](#)
15. [Y Broses Lloches](#)
23. [Cynllunio ar gyfer y Dyfodol](#)
26. [Adnoddau](#)

1.

Cyrraedd / Pwynt cyswilt cyntaf

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd y DU a Chymru'n 'ddigymell'. Mae hyn yn golygu eu bod yn cyrraedd mewn lorïau neu ddulliau cudd eraill. Gall rhai plant gyrraedd y DU o dan system **adran 67 o'r Ddeddf Mewnfudo 2016** (a adwaenir fel **gwelliant Dubs**). Mae hwn yn ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i drosglwyddo 480 o blant i'r DU o rannau eraill o Ewrop, yn enwedig Ffrainc, yr Eidal a Gwlad Groeg. Mae nifer fach o blant eisoes wedi'i hadsefydlu yng Nghymru a gall llawer mwy gyrraedd.

Mae'r **Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol** yn awr ar gael yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn hwyluso trosglwyddo plant o awdurdodau lleol yn Lloegr, lle mae niferoedd mawr yn cael gofal, fel Caint a Croydon. Bydd y Tim Trosglwyddo Cenedlaethol yn gweithio â Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a'ch awdurdod lleol i ddod o hyd i unrhyw leoliadau posibl i'r plant hyn.

Efallai y byddwch yn dod i gysylltiad â phlentyn yn fuan iawn ar ôl iddynt gyrraedd y DU.

- Os bydd swyddogion mewnfudo neu'r heddlu'n dod ar draws plentyn sy'n ymddangos yn iau na 18 oed, dylent gysylltu â gwasanaethau plant ar unwaith. Rhaid i'r asiantaethau hyn gysylltu â gwasanaethau plant ar unwaith os dywed plentyn eu bod o dan 18 oed os nad oes tystiolaeth gref eu bod gryn dipyn yn hŷn na 18 oed.
- Mewn achosion eraill, efallai bydd y plentyn wedi llwyddo i osgoi'r awdurdodau mewnfudo wrth gyrraedd y DU, neu efallai y byddant wedi cael eu trin fel oedolyn ar y dechrau. Mae'n bosibl na fyddant yn dod i'ch sylw tan yn ddiweddarach, neu mae'n bosibl y byddant wedi bod yn y DU ers peth amser.

- Weithiau, bydd plentyn yn honni eu bod dros 18 oed, efallai am fod y sawl a ddaeth â hwy i'r DU wedi dweud wrthynt am ddweud hynny, neu am eu bod yn ofni beth allai ddigwydd iddynt pe baent yn cyfaddef eu bod o dan 18 oed.
- Os bydd swyddogion mewnfudo'n credu bod ymddangosiad ac ymarweddiad "yn awgrymu'n gryf eu bod gryn dipyn yn hŷn na 18 oed a lle nad oes dim tystiolaeth i gadarnhau'r oedran maent yn ei honni", bydd y plentyn yn cael ei drin fel oedolyn, ac yn cael eu rhoi mewn llety i oedolion. Os yw'r plentyn yn honni eu bod dros 18 oed, byddant yn cael eu rhoi yn llety'r Swyddfa Gartref i oedolion (NASS). Mi all y plentyn wedyn ddod i gysylltiad ag eraill – gweithwyr iechyd proffesiynol iechyd, cynrychiolwyr cyfreithiol, darparwyr llety, gweithwyr mewn canolfannau galw i mewn, eglwysi ac asiantaethau eraill – a all ddatgan pryderon y gallai'r plentyn fod o dan 18 oed. Mae'n bosibl y bydd y plentyn wedi bod yn byw mewn llety i oedolion am beth amser cyn iddynt gael eu hatgyfeirio at wasanaethau plant ac yn dod i gysylltiad â chi yn eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol.

Yn yr asesiad llesiant cyntaf, eich rôl chi fel gweithiwr cymdeithasol fydd casglu gwybodaeth i ganfod anghenion y plentyn ar y pryd. Efallai mai un o ganlyniadau'r asesiad hwn fydd penderfynu y dylai asesiad oedran fod yn flaenoriaeth, Gall yr wybodaeth a gesglir yn ystod yr asesiad llesiant cyntaf fod yn berthnasol i'r asesiad oedran. Mae cyfathrebu â'r plentyn yn allweddol i ganfod beth yr hoffent hwy ei weld yn digwydd, a'u barn am ble dylent aros, fel y gellir ystyried y rhain mewn unrhyw benderfyniadau a wneir yn eu cylch, ac i wneud yn siŵr bod penderfyniadau er lles pennaf y plentyn.

2.

Anghenion sylfaenol

Cyfieithu

Rhaid canfod beth yw iaith gyntaf y plentyn a sicrhau bod cyfieithydd addas ar gael, nid yn unig o ran iaith a thafodiaith, ond hefyd rhywedd y cyfieithydd. Mae cyfieithu wyneb yn wyneb â chyfieithydd o asiantaeth ag enw da'n hanfodol (er enghraifft, efallai y bydd angen i gyfieithwyr gael gwiriad DBS a bydd yn rhaid parchu cyfrinachedd bob amser):

- Mae'n sicrhau'r tebygrwydd y bydd y cyfieithu'n gywir a dibynadwy
- Mae'n lleihau'r perygl y gallai'r plentyn gael ei roi mewn cysylltiad â rhywun nad yw'n malio am les pennaf y plentyn.

Diogelu

- Rhaid ystyried y posibilrwydd y gallai'r plentyn fod wedi'i fasnachu, neu fod perygl y gallai gael ei fasnachu
- Rhaid ystyried y posibilrwydd y gallai fynd ar goll o ofal
- Bydd angen ffotograff o'r plentyn (gyda'i gydsyniad). Gall hynny helpu i adnabod y plentyn pe bai'n mynd ar goll rywryd yn y dyfodol.
- Os yw plentyn mewn perygl difrifol o niwed oherwydd y bobl eraill sydd gyda hwy, gall fod yn briodol i ofyn am orchymyn llys i'w rhoi yng ngofal yr awdurdod lleol. Gall y darpariaethau o dan Ddeddf Plant 1989 (adran 46. 47) fod yn briodol, yn enwedig os yw'r plentyn wedi dod i'ch gofal yn dilyn ymyriad yr heddlu.

Llety

Os yw'r plentyn yn cael ei ddal gan yr heddlu neu'r awdurdodau mewnfudo, bydd angen dod o hyd i lety ar frys. Mae hyn yn golygu y byddant yn cael eu cyfrif yn awtomatig fel plant 'sy'n derbyn gofal'.

Ni ddylai statws mewnfudo plant benderfynu pa fath o lety fydd yn addas ar eu cyfer. Fodd bynnag, gall dod o hyd i lety addas fod yn anodd am nifer o resymau:

- Oedran y plentyn
- Anghenion ieithyddol a diwylliannol
- Anghenion iechyd corfforol a meddyliol
- Cyfyngiadau o ran adnoddau (er enghraifft, argaeledd gofalwyr maeth/darpariaeth breswyl addas)

Os oes amheuaeth wirioneddol am oedran y plentyn, neu os yw'r plentyn yn achos 'anghydfod oedran' a'u bod wedi'u hatgyfeirio atoch chi neu os ydynt wedi treulio amser eisoes mewn llety i oedolion, canlyniad yr asesiad llesiant fydd cynnal asesiad oedran ar unwaith i ystyried a yw'r awdurdod lleol yn derbyn eu bod o dan 18 oed.

Nid oes pŵer gan y Swyddfa Gartref i roi llety i blant ar eu pen eu hunain, felly dylid sicrhau llety i bawb sydd neu a all fod o dan 18 oed, i ddiogelu ac amddiffyn eu hawl i gymorth a llety gan yr Awdurdod Lleol yn y dyfodol (yn unol â Rhan 6 o SSWA 2014). Hyd yn oed os oes amheuaeth dylid rhoi mantais yr amheuaeth iddynt a dylid gwneud penderfyniadau ar sail amddiffynnol.

Gwasanaethau Iechyd a Llesiant

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn mynnu y rhoddir ystyriaeth gyfannol i lesiant gan gynnwys llesiant corfforol, iechyd meddwl ac emosïynol, addysg, perthnasoedd a sicrhau hawliau a hawliadau. Yn achos plant, dylai eu datblygiad corfforol, deallusol, emosïynol ac ymddygiadol a'u lles gael eu hystyried wrth edrych ar lesiant cyffredinol.

Y ddyletswydd gychwynnol yw creu **Cynllun Gofal a Chymorth (Adran 54, SWWWA 2014)**, neu cyn gynted ag y bydd y person ifanc yn cyrraedd 16 oed dylai hwn gael ei drosi'n **Gynllun Llwybr**, i baratoi'r plentyn at oedolaeth.

Yn ychwanegol at eich proses arferol o weithio â Nyrsys Plant sy'n Derby Gofal fel bydd yn briodol, bydd angen i chi ystyried:

- Fel yn achos pob plentyn sy'n derbyn gofal, mae dyletswydd arnoch i wneud yn siŵr bod y plentyn wedi'i gofrestru â meddyg teulu o fewn 10 niwrnod.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd lleol sicrhau bod pob ceisiwr lloches yn cael asesiad iechyd i'w sgrinio ar gyfer clefydau fel TB.
- Bydd y bwrdd iechyd hefyd yn rhoi brechiadau'n ôl yr angen. Os ydych mewn ardal wasgaru, efallai y bydd clinig penodol ar gyfer ceiswyr lloches lle gall yr asesiadau hyn gael eu cynnal gan weithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant arbennig, Os nad oes, meddyg teulu'r plentyn fydd yn gwneud hyn.
- Mae'n hanfodol ystyried effaith ACE (Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod) ar ddatblygiad a sicrhau bod gofal priodol, seiliedig ar drawma ar gael¹. [Mae canllaw diweddaraf GIG Cymru i'w weld yma](#)
- Dylid hefyd ystyried effaith anweladwy a chymhleth bywyd blaenorol y plentyn a'r caledi y gallant fod wedi'i brofi ar y ffordd i'r DU. Gallai'r rhain gynnwys, ond ni fyddant wedi'u cyfyngu i:



- Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (FGM)
- Anhwylder Straen wedi Trawma (PTSD) a phroblemau iechyd meddwl eraill
- Diffyg maethiad
- Cam-drin corfforol / rhywiol
- Safbwyntiau eithafol.

Ystyriaethau iechyd meddwl

Gall plant sy'n dod i Gymru brofi problemau iechyd meddwl o ganlyniad i'w profiadau yn eu mamwlad, ar eu taith i'r DU, neu o ganlyniad i'r sefyllfa

maent ynddi ar ôl cyrraedd yma. Mae'n cael ei gydnabod bod y grŵp hwn o blant yn debygol iawn o fod ag anawsterau iechyd meddwl, ac yn anffodus nid yw llawer ohonynt yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.²

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol ar gael i helpu yn y maes hwn ac mi allant helpu drwy sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu addas ar gael i'r plentyn i wneud yn siŵr bod eu cysylltiad â CAMS yn ystyrlon a buddiol i'r plentyn. Dylid ystyried y ffordd orau o ddarparu help i bobl ifanc pan fyddant yn aros i ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl.

Gwybodaeth am y famwlad

Mi gewch wybodaeth am y wlad o ble mae'r plentyn wedi dod ar-lein - neu o lyfrynnau fel: corambaaf.org.uk/books/caring-unaccompanied-asylum-seeking-children-and-young-people



Gallwch hefyd edrych ar yr adroddiadau gwybodaeth am wledydd ar wefan [Human Rights Watch](#) neu ar wefan [Amnest Rhyngwladol](#)



Mae'n bosibl hefyd y bydd mudiadau cymunedol diwylliannol lleol a fyddai'n ffynhonnell werthfawr o gymorth a gwybodaeth.

Addysg a Hyfforddiant

Bydd gan blant sy'n ceisio lloches yn y DU brofiadau gwahanol iawn o addysg. Bydd gan rai plant afael da ar Saesneg pan fyddant yn cyrraedd, ni fydd gan eraill bron ddim. Bydd rhai wedi cael lefel uchel o addysg yn eu mamwlad, eraill, bron ddim. Beth bynnag eu cefndir, mae llawer o bobl ifanc sy'n dod i'r DU a Chymru'n awyddus i barhau â'u haddysg neu i gael hyfforddiant.

1. Wood S, Ford K, Hardcastle K, Hopkins J, Hughes K and Bellis MA, Adverse Childhood Experiences in child refugee and asylum seeking populations (Cardiff: Public Health Wales NHS Trust 2020).

2. Children's Society, 'Distress Signals: Unaccompanied Young People's Struggle for Mental Health Care' (Children's Society, 2018), <https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/2020-10/distress-signals-repo-rt.pdf>.

Cyn gynted ag y bydd eu hanghenion yn hysbys, mae'n hanfodol eich bod yn gweithio'n glos â chydweithwyr addysg i sicrhau ysgol, coleg neu leoliadau hyfforddi priodol i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae'n bosibl y bydd cyrsiau ESOL ar gael yn lleol. Mae hefyd yn bwysig dros ben os oes unrhyw arwyddion o Anghenion Dysgu Ychwanegol bod y rhain yn cael eu hasesu'n drylwyr, a'ch bod yn cael cyngor arbenigol yn hytrach na thybio bod iaith yn rhwystr rhag asesu. Tra bydd trefniadau ar gyfer darpariaeth addysg ffurfiol yn cael eu gwneud, mae'n bwysig rhoi sylw i leisiant y plentyn, er enghraifft o ran ynysu cymdeithasol a gweithgarwch ystyrlon y gellid eu trefnu.

Mae rhagor o wybodaeth am Ddeddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) ar gael yn [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\)](#)



3.

Masnachu mewn Pobl

Mae pobl – oedolion yn ogystal â phlant – yn cael eu masnachu pan fyddant yn cael eu cludo neu eu cadw'n rhywle i gamfanteisio arnynt.

Efallai na fydd rhai plant yn sylweddoli eu bod wedi cael eu masnachu, a bydd rhai wedi cael eu bygwth ac felly mi allant fod yn amharod i egluro beth sydd wedi digwydd iddynt. Gall plentyn fod wedi ei fasnachu neu mi all fod mewn perygl o hynny hyd yn oed os ydynt yn dod i'ch sylw cyn i unrhyw gamfanteisio ddigwydd. Efallai na fydd pryderon am y plentyn yn dod i'r amlwg tan ar ôl iddynt gael eu rhoi yn y system ofal.

Peidiwch â drysu rhwng smyglo a masnachu

Bydd nifer sylweddol o'r rhai a ddaw i'r DU ac sy'n ceisio lloches wedi cael eu smyglo yma. Byddant wedi talu i rywun eu cludo i'r DU ac efallai y byddant wedi treulio amser yn gweithio i asiant i godi'r arian – neu yn lle gwneud taliad ariannol. Os daw'n amlwg mai unig fwiad y smyglwr yw cael y plentyn i'r DU, yna nid yw masnachu'n debygol.

Sut i ymateb os oes amheuaeth o fasnachu

Os ydych chi'n poeni am blentyn ac yn amau eu bod wedi cael eu masnachu, dylech gysylltu â [Gwasanaeth Annibynnol Masnachu mewn Plant Barnardos](#)

Mae Cymru'n defnyddio Eiriolwyr Annibynnol Masnachu mewn Plant (ICTA) – gweithwyr proffesiynol arbenigol sy'n



gallu helpu plant a all fod wedi cael eu masnachu. Os oes tystiolaeth gref bod plentyn wedi cael ei fasnachu, rhaid i'r awdurdod lleol gysylltu â'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) fel 'ymatebwr cyntaf'.

- Bydd angen i chi gwblhau [ffurflen atgyfeirio i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol](#). Mae hwn yn rhan o'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.
- Nid oes yn rhaid i chi gael cydsyniad y plentyn i wneud atgyfeiriad, ond mae'n arfer da i gynnwys y plentyn gymaint â phosibl yn y broses.



Bydd rhan gyntaf y penderfyniad masnachu'n aml yn cael ei gwneud yn sydyn iawn gan yr NRM - o fewn 5 niwrnod fel arfer. Gelwir hwn yn 'Benderfyniad ar Sail Resymol'.

Mi all fydd gan y plentyn hawl i 45 diwrnod o 'adfer a myfyrio' mewn llety diogel tra ymchwilir i'w amgylchiadau. Mewn gwirionedd, nid yw hyn yn gwneud dim gwahaniaeth o ddydd i ddydd i'r plentyn, gan y bydd eisoes wedi'i gartrefi gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, gall unrhyw benderfyniad fod yn bwysig i ganlyniad cais y plentyn am loches.

Bydd ail benderfyniad, Penderfyniad 'Sail Derfynol' yn cael ei wneud yn ddiweddarach, fel arfer yn dilyn cyfweiliad lloches os oes cais am loches heb ei gwblhau. Mewn rhai achosion, efallai na fydd y cais am loches yn gysylltiedig â masnachu ac felly dylid cyflwyno sylwadau i'r Swyddfa Gartref i wneud Penderfyniad Lloches cyn gynted â phosibl yn hytrach nag aros am ganlyniad atgyfeiriad yr NRM.

4. Asesiad Oedran

Mae asesiadau oedran yn broses gymhleth sydd â goblygiadau enfawr i'r plentyn o ran y gofal a'r cymorth y byddant yn gymwys i'w gael yn y DU. Mae canfod a yw'r plentyn yn 'blentyn' (o dan 18 oed) yn allweddol i sicrhau eu bod y cael y cyngor a'r cymorth cywir. Mae oedran yn effeithio ar ba asiantaethau sy'n gyfrifol am gynnig help a chymorth i'r plentyn pan fyddant yn y DU. Mae hefyd yn effeithio ar sut y bydd cais am loches yn cael ei brosesu.

Mae asesiad oedran yn broses yn hytrach na digwyddiad. Os daw gwybodaeth i'r amlwg yn ddiweddarach sy'n awgrymu bod y plentyn yn hŷn na'r hyn a honnwyd, neu'n hŷn (neu'n iau) na'r oedran a briodolwyd iddo yn yr asesiad oedran, mi allwch gynnwys asesiad oedran arall.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yma ond wedi'i bwriadu fel cyflwyniad a throsolwg byr o'r asesiad oedran. Dylai ymarferwyr bob amser gyfeirio at y [Pecyn Cymorth ar gyfer Asesu Oedran](#) i gael cyngor ac arweiniad manylach



Pwy sy'n cynnal asesiad oedran?

Efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol gynnal asesiad oedran i benderfynu ar y cymorth y dylai'r plentyn ei gael, a phwy ddylai ddarparu'r cymorth hwnnw. Hyd yn oed os oes tybiaeth y gallai'r plentyn fod yn hŷn na 18 oed, dylent gael eu trin fel plentyn nes bydd yr asesiad wedi'i gwblhau.

Efallai y bydd swyddogion mewnfudo sydd wedi dod i gysylltiad â'r plentyn wedi gwneud penderfyniad am y plentyn a'r amheuaeth ynghylch eu hoedran, a all olygu y bydd y plentyn yn cael ei drin fel oedolyn. Ni ddylai hyn

fyth fod yn safbwynt diofyn. Ni all UKVI drin plentyn sy'n honni eu bod o dan 18 oed fel oedolyn oni bai bod eu hymddygiad corfforol a'u hymarweddiad 'yn awgrymu'n gryf iawn' eu bod yn sylweddol hŷn na 18 oed.

Nid oes ymrwymiad ar yr awdurdod lleol i gynnal asesiad oedran, oni bai eich bod yn credu bod y plentyn rydych yn gofalu amdano'n sylweddol hŷn na 18 oed, neu os oes tystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg yn ymwneud â'u hoedran. Gall y Swyddfa Gartref herio eich penderfyniad i beidio asesu eu hoedran.

Llety yn ystod asesiad oedran

Os bydd plentyn yn cael ei atgyfeirio atoch yn syth ar ôl cyrraedd ac yn dweud eu bod o dan 18 oed, rhaid i'r awdurdod lleol eu trin fel plentyn, a darparu llety iddynt nes gellir cynnal asesiad oedran. Dylech sylweddoli y gall hyn olygu y gall plentyn a gaiff ei asesu fel bod yn hŷn na 18 oed gael ei roi mewn llety gyda phlant am gyfnod, er enghraifft, mewn cartref maeth neu ddarpariaeth breswyl.

Oedolyn Priodol

Mae gan y plentyn hawl i gael oedolyn priodol, neu eiriolydd a all weithredu hefyd fel oedolyn priodol, yn gwmni iddynt yn ystod y broses asesu oedran. Er na all yr oedolyn priodol ateb cwestiynau ar ran y plentyn, mi allant – a dylent eu cefnogi yn ystod y broses.

Mae rôl yr oedolyn priodol yn cynnwys:

- gwneud yn siŵr bod y plentyn yn deall yr hyn sy'n digwydd, a pham
- ymyrryd i ofyn am doriad os bydd angen ar y plentyn; efallai i ymgynghori â chynghorwyr cyfreithiol, â'r oedolyn priodol neu os yw'r plentyn yn drallodus neu'n ymddangos yn sâl neu flinedig
- ymyrryd os nad yw'r bobl sy'n cynnal yr asesiad oedran yn ymddwyn yn briodol a theg
- cynorthwyo i gyfathrebu â'r bobl sy'n cynnal yr asesiad oedran

- sicrhau bod y plentyn yn deall y gall gael cyngor cyfreithiol ac yn deall eu hawliau yn ystod y broses asesu oedran.

Dylai'r oedolyn priodol fod yn annibynnol ar yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr asesiad oedran. Oherwydd hyn, ni fyddwch chi, fel y gweithwyr cymdeithasol sy'n gyfrifol am y plentyn, yn cael eich cyfrif fel bod yn 'annibynnol' i ddibenion y cyfweiliadau asesu oedran. Ni fydd fel arfer yn cael ei ystyried yn briodol i gyfreithiwr y plentyn weithredu fel oedolyn priodol. Mae'r oedolyn priodol yn fwy nag arsylwr yn unig. Mae angen iddynt feddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu rôl a bod yn ddigon hyderus i herio gweithwyr cymdeithasol os ydynt yn teimlo nad yw'r cyfweiliad yn cael ei gynnal yn briodol.

Os bydd plentyn yn dewis peidio â chael oedolyn priodol yn bresennol, dylech gael cadarnhad bod y plentyn yn deall beth yw rôl oedolyn priodol, a cheisio canfod pam eu bod yn gwrthwynebu. Os bydd y plentyn yn parhau i wrthod cael oedolyn priodol, yna dylech barchu eu dymuniad.

Y Broses

Gall yr asesiad oedran fod yn broses hir. Yn ymarferol, gwnewch yn siŵr bod gan y plentyn yn eich gofal fwyd a diod gyda hwy, a dillad addas fel eu bod yn gyfforddus drwy'r dydd. Dylech hefyd wirio gyda'r plentyn bod yr amgylchedd yn gyfforddus iddynt.

Os bydd angen cyfieithydd, bydd angen trefnu hynny. Mae'n bwysig gwirio gyda'r plentyn beth yw ei hoffter o ran rhywedd y cyfieithydd ac a oes unrhyw ofynion tafodieithol neu ddiwylliannol arbennig. Mae'n bwysig cadw ffactorau o'r fath mewn cof yn unol â phrofiadau ac anghenion y plentyn.

Beth fydd yn digwydd ar ôl cwblhau'r asesiad?

- Os yw'r asesiad yn dod i'r casgliad bod y plentyn yn 18 oed neu hŷn, dylid eu hatgyfeirio at y Swyddfa Gartref i gael cymorth a llety.
- Os yw'r asesiad yn penderfynu bod y plentyn o dan 18 oed, dylent barhau i gael llety gan yr awdurdod lleol.

Bydd angen i chi hysbysu'r Swyddfa Gartref o ganlyniad yr asesiad oedran gan ddefnyddio'r "[profforma rhannu gwybodaeth am asesiadau oedran](#)".

Noder: Os oes newid yn oedran y plentyn a aseswyd, bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddfa Gartref eto.



Bydd angen i'r swyddfa Gartref gael hysbysiad ysgrifenedig sy'n datgan bod y plentyn yn 18 oed neu hŷn cyn y bydd yn eu cartrefu a'u cynorthwyo. Ar ôl cytuno ar yr oedran, bydd angen newid yr holl gofnodion a dogfennau i ddangos yr oedran geni a dderbynnir. Dylech roi copi o'r asesiad i'r plentyn ac, os yn briodol, i'w heiriolydd neu eu cynghorydd cyfreithiol hefyd. Efallai y byddant yn dymuno herio canlyniad yr asesiad.

Herio penderfyniad yr Asesiad Oedran

Mae asesiad oedran yn broses sy'n agored i 'Adolygiad Barnwrol', sy'n golygu y gall y penderfyniad gael ei herio.

Mi all canlyniad cais am adolygiad barnwrol yn y diwedd olygu y bydd yn rhaid i chi gynnal yr asesiad oedran eto – er enghraifft, os bydd llys yn penderfynu nad oeddech wedi cymryd sylw o ddarn o wybodaeth y dylech fod wedi'i ystyried, neu eich bod wedi ystyried rhywbeth a oedd yn amherthnasol.

Gall yr Uwch Dribiwnlys hefyd wneud datganiad ynglŷn ag oedran y plentyn a fydd yn rhwymol ar yr awdurdod lleol.

Os bydd y plentyn yn penderfynu cael adolygiad barnwrol, mi all y nodiadau y byddwch yn eu cadw ar adeg yr asesiad oedran, yn ystod y broses ac yn syth ar ei hôl gynnwys tystiolaeth bwysig i ddangos yr hyn yr oeddech ac nad oeddech wedi'i ystyried, a pha bwyslais yr oeddech yn ei roi ar wahanol ffactorau. Bydd cadw nodiadau llawn a chofnodi penderfyniadau a wneir a'r dystiolaeth i ategu'r penderfyniadau hynny yn fuddiol.

5.

Y Broses Ceisio Lloches

Os nad yw'r plentyn wedi gwneud cais am loches eto, ac yn dymuno gwneud hynny, rhaid iddo wneud hynny **cyn gynted â phosibl**. Mae eich help yn ystod y cam cyntaf hwn yn holl bwysig.

Er mwyn dangos ei fod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau i gefnogi'r plentyn, gellir gofyn i'r awdurdod am dystiolaeth o'r camau mae wedi'u cymryd i helpu'r plentyn i gofrestru eu cais am loches.

Cysylltiad Cyntaf
a Chyfweliad
Llesiant



Y Prif
Gyfweliad

Cysylltiad Cyntaf a Chyfweliad Llesiant

- Gwneir y cais am loches fel arfer i Swyddfeydd Rhanbarthol y Swyddfa Gartref. Yng Nghymru, y rhain yw'r Swyddfeydd Fisâu a Mewnfudo y DU yn Newport Road, Caerdydd.
- Os nad oes modd cael y cyfarfod yng Nghaerdydd, efallai y bydd yn rhaid i chi helpu'r plentyn i wneud trefniadau i deithio i swyddfeydd Fisâu a Mewnfudo y DU yn Croydon neu Solihull ar gyfer y cyfarfod hwn.
- Yn y Cyfarfod Cychwynnol bydd y plentyn yn cael 'SEF' (Ffurflen Datganiad o Dystiolaeth) a bydd eu cyfreithiwr yn eu helpu i'w llenwi. Byddant hefyd yn cael help i lunio datganiad sy'n rhoi gwybodaeth am eu cais a'u siwrnai i'r DU.

Y Prif Gyfweiliad

- CBydd yn rhaid i blant 12 oed a hŷn fynd i brif gyfweiliad lloches oni bai bod rhesymau digonol pam na ddylid cynnal cyfweiliad.
- Mae gan y plentyn hawl i gael rhywun yn gwmni iddynt yn y cyfweiliad lloches fel 'oedolyn priodol'. Ni all y person hwn ateb cwestiynau ar ran y plentyn ond gallant ymyrryd os bydd y plentyn yn drallodus neu fliniedig neu angen toriad a dylent gael cyfleoedd i siarad yn breifat â'r plentyn.
- Os na fydd y plentyn yn dod i'w prif gyfweiliad lloches, gellid gwrthod y cais am loches ar sail diffyg cydymffurfiaeth. Os ydych yn gysylltiedig â'r achos fel gweithiwr cymdeithasol, ac os nad yw'r plentyn yn mynd i'w cyfweiliad, dylai'r gweithiwr achos UKVI gysylltu â chi i holi pam nad oedd yn bresennol.
- Os byddwch yn ymwybodol ymlaen llaw y bydd yn anodd bod yn bresennol yn y cyfweiliad, oherwydd salwch neu broblem trafndiaeth, er enghraifft, dylech drafod hyn â'r swyddog achos cyn gynted â phosibl.

Bydd plant dros 12 oed fel arfer yn cael eu cyfweld; fodd bynnag nid oes gorfodaeth ar y Swyddfa Gartref i gyfweld rhywun sy'n gwneud cais am loches os oes ganddynt ddigon o wybodaeth eisoes i wneud penderfyniad. Os nad yw'r plentyn yn ddigon iach – yn gorfforol neu feddyliol – i gael eu cyfweld, dylid rhoi gwybod am hynny.

Gall y Swyddfa Gartref hefyd ofyn am **Asesiad Iaith**. Mae hwn yn gyfweiliad dros y ffôn lle mae'r plentyn yn siarad yn eu mamiaith â siaradwr iaith gyntaf am 20-30 munud, ac mae'n rhan o'r broses i asesu o ba wlad mae'r unigolyn yn dod os nad oes ganddynt ddogfennau adnabod.

'Oedolyn cyfrifol'

Mewn sawl ffordd, mae gan yr oedolyn cyfrifol rôl debyg i rôl yr oedolyn priodol yn y broses asesu oedran. [Mae Home Office Guidance on Children's Asylum Claims](#) (diweddarwyd Rhagfyr 2020) yn cynnwys rhestr fanwl, ond heb fod yn gyflawn, o ddyletswyddau'r oedolyn cyfrifol, sydd fel a ganlyn:



- rhoi cymorth annibynnol i'r plentyn a gweithredu er lles pennaf y plentyn
- gofalu am lesiant y plentyn fel eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan yn y gweithdrefnau lloches mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion llesiant ac sy'n cydnabod eu haeddfedrwydd
- tynnu sylw at unrhyw faterion llesiant y dylai'r penderfynwr fod yn ymwybodol ohonynt cyn, yn ystod ac ar ôl cyfweiliadau fel y bydd anghenion llesiant y plentyn yn cael eu hystyried drwy gydol y broses
- sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n gyfforddus yn ystod y broses gyfweld
- sicrhau bod y plentyn yn deall y broses gyfweld
- rhoi cefnogaeth a sicrwydd i'r person ifanc yn ôl yr angen
- hwyluso cyfathrebu rhwng y plentyn a'r swyddog cyfweld pan fydd angen
- sicrhau bod anghenion llesiant y plentyn yn cael eu diwallu yn ystod y broses gyfweld, fel digon o doriadau a lluniaeth
- cynnig unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r swyddog cyfweld a all fod yn berthnasol i lesiant emosiynol a gallu'r plentyn i gael ei gyfweld (e.e. ymprydio am resymau crefyddol)

Efallai na fydd yn briodol i chi, fel gweithiwr cymdeithasol y person ifanc, fod yn oedolyn cyfrifol, gan y bydd gennych efallai wybodaeth sy'n wahanol i'r wybodaeth y bydd y person ifanc yn ei rhoi yn ystod y cyfweiliad.

Eich rôl mewn cysylltiad â Chyngor Cyfreithiol

Mae ceisio am loches yn fater cymhleth a bydd angen cyngor cyfreithiol a chefnogaeth ar y plentyn rydych yn gyfrifol amdano drwy gydol y broses. **Rhaid** i'r awdurdod lleol helpu'r plentyn i gael cyngor cyfreithiol.

Gall fod yn anodd dod o hyd i arbenigwyr mewn cyfraith fewnfudo, yn enwedig yng Nghymru. Gan ddibynnu ar ba ran o Gymru rydych yn gweithio, efallai y bydd yn rhaid iddynt deithio cryn bellter i weld eu cynghorydd cyfreithiol. Dylai'r awdurdod lleol hwyluso hyn.

Mae **Cymorth Cyfreithiol** ar gael ar gyfer pob mater yn ymwneud â

mewnfudo yn achos plant ar eu pen eu hunain, gan gynnwys lloches. Ar ôl i'r plentyn fynychu'r cyfweliad sgrinio cychwynnol ac wedi gwneud eu cais am loches, byddant yn gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol, ond yn ymarferol gall prinder cyfreithwyr sy'n delio ag achosion Cymorth Cyfreithiol olygu y gall hynny fod yn anodd.

Yn achos plentyn sy'n agos at eu pen blwydd yn 18 oed, mae'n arbennig o bwysig gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyngor cyfreithiol o safon uchel. Gall oedi cyn cael cyngor cyfreithiol olygu y bydd yn cymryd mwy o amser i ddatrys statws mewnfudo'r plentyn, a gall hynny gael effaith negyddol ar y cais.

Er nad allwch roi cyngor cyfreithiol i'r plentyn ar gais am loches, gallwch helpu a chefnogi plant i ddod o hyd i gynghorydd cyfreithiol addas. Mae ambell beth y dylid eu cadw mewn cof:

- Ni ddylech awgrymu cynghorwyr cyfreithiol oni bai bod ganddynt **achrediad priodol** – naill ai gan Gymdeithas y Cyfreithwyr neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo (OISC).
- Efallai yr hoffech holi a yw cyfreithiwr penodol wedi cael hyfforddiant ychwanegol neu brofiad o weithio â phlant.
- Mae cyngor cyfreithiol sy'n cael ei ariannu gan Gymorth Cyfreithiol ar gael gan gynghorwyr cyfreithiol gydag achrediad 'Uwch Weithiwr Achos' o dan gynllun Cymdeithas y Cyfreithwyr, neu gan gynghorydd cyfreithiol wedi'i achredu gan yr OISC hyd Lefel 2. Os yw cynghorydd cyfreithiol am gynrychioli'r person ifanc yn y Tribiwnlys Mewnfudo rhaid bod ganddynt achrediad OISC hyd Lefel 3.
- Efallai y bydd yn rhaid i chi gyflwyno llythyr i'r cynghorydd cyfreithiol a ddewiswyd sy'n cadarnhau bod y plentyn yn derbyn gofal, a lefel y cymorth maent yn ei gael. Bydd hyn fel arfer yn ddigon o dystiolaethi ddangos bod y plentyn yn cael cymorth a llety gan yr awdurdod lleol i fod yn gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol.

Achrediad priodol

Mae darparu cyngor am loches yn drosedd oni bai eich bod yn gyfreithiwr sy'n cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, yn fargyfreithiwr sy'n cael ei reoleiddio gan Gyngor y Bar neu'n gyfreithiwr nad yw'n gyfreithiwr sydd wedi'i awdurdodi gan OISC ar Lefel 2.

Dylai cyfreithiwr weithio â'r plant mewn ffordd sy'n addas i'w hanghenion, gan gynnwys ystyriaeth i effaith trawma a Phrofiadau Niweidiol yn Ystod

Plentyndod. Weithiau byddant yn ei chael yn anodd siarad â'u cyfreithiwr ac efallai y bydd materion penodol, fel ymosodiadau rhywiol, y dylid eu trafod ag arbenigwr meddygol yn hytrach na chyfreithiwr.

Os yw'n anodd dod o hyd i gynghorydd cyfreithiol a all gynrychioli'r plant ar Gymorth Cyfreithiol, bydd angen i'r awdurdodau lleol ystyried talu'r costau. Mewn o leiaf un achos a benderfynwyd gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol yn ystod y blynyddoedd diweddar, barnwyd fod bai ar gyngor a wrthododd helpu i ariannu cyngor cyfreithiol yn achos statws mewnfudo plentyn yn derbyn gofal.

Meddai'r Ombwdsmon *"Methodd y Cyngor â sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cost y cyngor cyfreithiol ac effaith peidio â chael cyngor priodol i gynorthwyo 'plentyn mewn gofal'. Cyfrifoldeb y Cyngor, fel rhiant corfforaethol, oedd diogelu a hybu ei lles. O ystyried amgylchiadau'r achos hwn, a'r costau bychain a oedd yn gysylltiedig â'r achos, roedd methiant yr Awdurdod i ariannu'r cyngor, neu i ddod o hyd i gyngor am ddim gan gyfreithiwr Cymorth Cyfreithiol, yn golygu bod y Cyngor ar fai."* [Ymchwiliad i gŵyn yn erbyn Bwrdeistref Frenhinol Greenwich (cyfeirnod: 13 019 106)]

Mae gan blant yr un hawl ag oedolion i gwyno os nad yw cyfreithiwr yn gweithredu'n briodol, a dylent gael gwybod am yr hawliau hyn a chael help i newid cyfreithiwr neu i gwyno os ydynt yn dymuno.

Canlyniadau'r Broses Lloches

Caniateir **Statws Ffoadur** os oes gan y plentyn ofn rhesymol o gael eu herlid yn eu mamwlad. Bydd yr amser y caniateir iddynt aros yn y DU yn dibynnu ar sut maent wedi cyrraedd y DU.

Os ydynt wedi teithio'n uniongyrchol i'r DU o'u mamwlad byddant yn cael eu cyfrif fel ffoadur 'Grŵp 1' a rhoddir **'caniatâd i aros'** am 5 mlynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwn gallant wneud cais am **'Ganiatâd Amhenodol i Aros'**. Mae'n bwysig eu bod yn gwneud hyn cyn i'w caniatâd cyntaf i aros ddod i ben.

Os ydynt wedi teithio drwy wlad lle nad oeddent yn wynebu erledigaeth uniongyrchol, byddant yn cael eu cyfrif fel ffoadur 'Grŵp 2' a byddant yn

cael caniatâd i aros am gyfnod o 30 mis. Byddant yn gallu gwneud cais i ymestyn hyn am gyfnodau pellach o 30 mis cyn iddo ddod i ben. Nid yw'r math hwn o ganiatâd yn llwybr awtomatig i ganiatâd amhenodol i aros a bydd angen i'r plentyn gael rhagor o gyngor cyfreithiol arbenigol i'w helpu i wneud cais am ganiatâd amhenodol, naill ai ar ôl 5 mlynedd neu 10 mlynedd.

Os byddant yn dal i dderbyn gofal ar yr adeg hon, efallai y bydd angen i chi helpu'r plentyn i gael Cymorth Cyfreithiol a chyngor cyfreithiol a help i gwblhau'r broses.

Diogelwch Dyngarol

Os nad yw'r plentyn yn gymwys i gael statws ffoadur ond ei fod yn ffoi h.y. rhag rhyfel neu newyn neu os yw eu hawliau sy'n cael eu gwarchod gan Erthyglau 2 a 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi eu torri, dylai'r swyddogion mewnfudo sy'n delio â'r cais am loches ystyried a ellid caniatáu diogelwch dyngarol. Caniateir hyn os yw'n cael ei gydnabod bod y plentyn yn wynebu *'risg wirioneddol o niwed difrifol pe bai ef neu hi'n dychwelyd'*. Os mai dyna fydd yr achos byddant yn cael eu trin yn yr un modd â ffoadur 'Grŵp 2'.

Caniatâd yn ôl Disgresiwn i Aros (a adwaenir weithiau fel 'Caniatâd UASC')

Os bydd lloches yn cael ei wrthod ac os na chaniateir diogelwch dyngarol, ond bod y trefniadau derbyn yn y wlad y byddent yn cael eu dychwelyd iddi'n annigonol, a bod y plentyn o dan 17.5 oed, dylid rhoi caniatâd dros dro i aros yn y DU i'r plentyn fel Plentyn ar ei Ben ei Hun sy'n Ceisio Lloches. Gelwir hyn yn aml yn ganiatâd UASC.

Yn yr achosion hyn, rhoddir caniatâd nes bydd y plentyn yn 17.5 oed, neu am 30 mis, pa un bynnag sydd fyrraf. Mewn llawer o achosion, cyn gynted ag y daw eu caniatâd i ben, bydd yr amodau ar gyfer eu caniatâd wedi dod i ben, felly bydd yn anodd dadlau dros estyniad pellach o'r caniatâd, ond os ydynt

yn dymuno aros yn y DU mae'n bwysig eu bod y cael cyngor cyfreithiol os nad oes ganddynt achos agored ar yr adeg y daw'r caniatâd i ben.

Oherwydd yr anawsterau gyda'r math hwn o ganiatâd, mae'n bwysig bod y plentyn yn cael cyngor manwl am eu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lloches neu ddiogelwch dyngarol ar adeg ei ganiatáu.

Caniatâd adran 67 i aros

Cyhoeddwyd y math hwn o ganiatâd ym mis Gorffennaf 2018 ac mae'n ymwneud â phlant sydd wedi eu trosglwyddo i'r DU o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2018 (gwelliant Dubs).

Os bydd cais y plant hyn am loches yn methu, dylent gael caniatâd adran 67 i aros yn y DU, ac mi ddylent gael astudio, gweithio, cael gofal iechyd ac arian cyhoeddus am 5 mlynedd. Ar ôl y cyfnod o 5 mlynedd, gallant wneud cais i aros yn barhaol yn y DU.

Caniatâd Calais i aros

Cyhoeddwyd y math hwn o ganiatâd i aros ym mis Medi 2018 ac mae'n ymwneud â phlant sydd wedi eu trosglwyddo i'r DU o Calais, rhwng mis Hydref 2016 a Gorffennaf 2017 drwy fath o aduniad teuluol Dulyn III.

Mae'r math hwn o ganiatâd i aros yn rhoi hawliau i'r plentyn i astudio, gweithio, cael gofal iechyd ac arian cyhoeddus am 10 mlynedd. Ar ôl y cyfnod o 10 mlynedd, gallant wneud cais i aros yn barhaol yn y DU.

Aduniad teuluol

Mi all y plentyn ofyn am gael dod ag aelodau eraill o'u teulu i'r DU i fyw gyda hwy. Nid yw'r rheolau mewnfudo yn caniatáu hyn ar hyn o bryd, gan ganiatáu'n unig fod plant yn cael dod i'r DU i ymuno â'u rhieni sy'n ffoaduriaid ac sydd yma eisoes, ond ni chaniateir i frodyr a chwiorydd a rhieni ddod i ymuno â phlentyn sy'n ffoadur.

Mewn rhai achosion, mi all y plentyn ddadlau bod cyfraith hawliau dynol (ac Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn benodol) yn golygu y dylai aelodau eraill o'r teulu gael ymuno â hwy yn y DU. Gall penderfyniad sy'n atal y rhiant/brodyr neu chwiorydd rhag ymuno â'r plentyn yn y DU gael ei weld fel ymyrraeth anghymesur ym mywyd teuluol y ffoadur ifanc.

Gellid dadlau hefyd eu bod wedi ffurfio bywyd teuluol gyda theulu maeth yn y DU ac y dylent gael yr hawl i aros ar sail hynny.

Os bydd plentyn yn cael ei fabwysiadu gan Ddinasyddion Prydeinig, byddant yn dod yn Ddinasyddion Prydeinig ar adeg eu mabwysiadu.

6.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mewn llawer o achosion, bydd y plant sy'n dod i'r DU ac sy'n dod o fewn y diffiniad o 'Blentyn ar ei Ben ei Hun sy'n Ceisio Lloches' bron yn 18 oed. Er y byddant yn cael llety gan yr awdurdod lleol i ddechrau, bydd angen ystyried beth fydd yn digwydd iddynt pan fyddant yn cyrraedd 18 oed.

Mi all fod yn anodd trefnu addysg neu hyfforddiant priodol i rywun o'r oedran hwn, a bydd yr angen i gadarnhau eu statws mewnfudo'n cael blaenoriaeth dros bopeth arall. Bydd datrys hyn yn flaenoriaeth, er bod hyn yn debygol o gymryd cryn amser, misoedd neu hyd yn oed flynyddoedd. Dylai **Cynllunio Llwybr** gynnwys y posibilrwydd na fydd y plentyn yn cael aros yn y DU, ond dylai hefyd gynllunio ar gyfer y posibilrwydd y byddant yn cael aros, neu pan fyddant yn 18 oed, bydd eu statws mewnfudo'n dal heb ei ddatrys. Gall y plentyn benderfynu hefyd yr hoffai ddychwelyd i'w mamwlad o'u gwirfodd.

Ar ôl 18 oed

Mae unrhyw un sydd wedi bod yn cael gofal am 13 wythnos yn gymwys i gael cymorth ôl-18 oed o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dylai plant yng Nghymru sy'n ceisio lloches gael cynnig y gwasanaeth hwn gan yr awdurdod lleol. Ni fydd statws mewnfudo'r plentyn yn effeithio ar eu hawl i gael help fel 'plentyn sy'n derbyn gofal' ar unwaith, ac fel y gweithiwr cymdeithasol, dylech fod yn hyderus i barhau i gynnig help fel y byddech yn ei wneud i unrhyw blentyn arall. Gall plentyn y mae ei gais am loches wedi methu ac sydd heb opsiynau eraill yn agored iddynt o ran caniatâd i aros

yn y DU, ddal i fod yn gymwys i gael cymorth ôl-18 oed, er bod eu 'Hawl i Apelio wedi Darfod'.

Bydd cymorth ôl-18 oed yn parhau nes bydd y plentyn yn 21 neu 25 oed os ydynt mewn addysg amser llawn. Os bydd statws ffoadur neu statws diogelwch dyngarol y plentyn yn cael ei adolygu yn ystod y cyfnod hwn neu os yw'r plentyn am wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol eu helpu i wneud hynny. Gallai hyn gynnwys ariannu cyngor cyfreithiol os nad oes cymorth cyfreithiol ar gael am fod y plentyn yn 18 oed neu hŷn.

Anghymwys i gael cymorth yr awdurdod lleol ar ôl 18 oed

Dylid edrych ar hawliadau'r rhai sydd wedi cyrraedd 18 oed gyda golwg ar eu hoedran a'u hamgylchiadau fel a geir yn adrannau 105 i 155 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid yw eu statws mewnfudo'n ystyriaeth berthnasol.

Efallai y bydd angen i chi helpu'r plentyn i bontio i'r system fel oedolyn sy'n ceisio lloches os nad ydynt bellach yn gymwys i gael help yr awdurdod lleol. Gallwch egluro y gallant fod yn gymwys i gael rhywle i fyw a lwfans wythnosol. Mae cymorth i oedolion sy'n ceisio lloches yn y DU yn cael ei ddarparu gan y Swyddfa Gartref yn hytrach na'r awdurdod lleol ond ni fydd ar gael ym mhob achos a gall fod yn anodd i oedolion sy'n ceisio lloches gael gafael ar y cymorth hwn.

Efallai y bydd angen help ar y plentyn hefyd i ddilyn trywydd eu cais am loches os nad ydynt yn cael help gweithiwr cymdeithasol/awdurdod lleol. Bydd angen i'r plentyn gymryd camau i gadarnhau eu statws mewn rhyw ffordd os bydd eu cais am loches yn cael ei wrthod yn y diwedd.

Mi all fod yn bosibl i roi'r plentyn mewn cysylltiad ag elusennau, grwpiau cymunedol neu fudiadau eraill a all roi'r cymorth a'r cyngor hwn, fel na fydd y plentyn yn teimlo ei fod wedi'i amddifadu'n llwyr o help ar ôl cyrraedd 18 oed.

Dinasyddion y dyfodol

Mae cymhlethdod rheolau mewnfudo'r DU yn golygu y bydd yn rhaid i chi ystyried ffactorau eraill sy'n ychwanegol at y rhai rydych yn dod ar eu traws yn achos plant eraill sydd yn eich gofal. Er bod asesiadau oedran a statws mewnfudo'n gallu ychwanegu haenau eraill at y gofal a'r cymorth rydych yn ei ddarparu, maent yn dal yn blant. Peidiwch â bod ofn edrych y tu hwnt i'r label 'Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches' ac edrychwch ar y plant hyn fel dinasyddion y dyfodol, gyda'r un hawliau dynol â phob plentyn arall yn eich gofal. Bydd gan eich proffesiynoldeb a'ch uniondeb ran enfawr i'w chwarae wrth helpu'r plant hyn i gael eu hawliau: gan eu galluogi i gael eu trin â pharch a chael cefnogaeth a llais wrth iddynt ddilyn cymhlethdodau'r llwybr o geisio lloches yn y DU.

7.

Adnoddau

Y fframwaith cyfreithiol



Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights



Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents



Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Codau Ymarfer, Rheoliadau a Chanllawiau
gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan



Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents

Cyngor cyfreithiol a chanllawiau i weithwyr cymdeithasol ar faterion mewnfudo



Pecyn Cymorth Right to Remain. Mae hwn yn adnodd cynhwysfawr sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ar gyfer ymarferwyr a Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches. Mae chwe adran wedi'u cyfieithu i ieithoedd eraill

[Right to Remain Toolkit – Right to Remain](#)



Free Movement. Mae'r wefan hon yn cael ei diweddarau'n rheolaidd, a gellir cofrestru i gael e-bost wythnosol.

www.freemovement.org.uk



Canllawiau Swyddfa Gartref y DU
[Processing children's asylum claims](#)

Canllawiau ychwanegol

Asesiadau Oedran i Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches



Pecyn Cymorth Asesu Oedran Llywodraeth Cymru
[Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches: pecyn cymorth asesu oedran](#)



Canllaw Llywodraeth y DU
[Age assessment: joint working - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Gofal a Diogelu



Canllaw Diogelu Cymru Gyfan ar gyfer Plant a all fod wedi'i Masnachu 2011

Diogelu.cymru

Health



Iechyd

[Unaccompanied asylum-seeking children's health](#)

Cysylltiadau Defnyddiol Eraill



Swyddfa Comisiynydd y Gwasanaethau Mewnfudo am restr o gyfreithwyr mewnfudo cymeradwy

[Office of the Immigration Services Commissioner - GOV. UK \(www.gov.uk\)](#)



Fisâu a Mewnfudo y DU

gov.uk/government/organisations/uk-visas-and-immigration



Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru

[Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru - WLGA](#)



[National Referral Mechanism](#)



Welsh Refugee Council

www.welshrefugeecouncil.org.uk

029 20489 800



National Referral Mechanism

[\(Independent Child Trafficking Advocacy Service\)](#)

[Barnardo's](#)



Gwasanaeth Olrhain Teuluoedd y Groes Goch Brydeinig

redcross.org.uk/get-help/find-missing-family



Y Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu

www.wits.wales



TGP Cymru

www.tgpcymru.org.uk



Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)


www.eyst.org.uk



Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol

www.nyas.net

Gwybodaeth arall yn y gyfres hon



Children's Legal Centre Wales

Richard Price Building
College of Law & Criminology
Swansea University
Singleton Park
Swansea
Wales
SA2 8PP

✉ childrenslegalcentre@swansea.ac.uk


☎ 01792 295399

🐦 @ChildLegalWales



childrenslegalcentre.wales

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu cynhyrchu gyda chefnogaeth **Siân Pearce** (Cyfreithiwr o fri ym maes Mewnfudo Plant), **Grŵp Pobl Ifanc arbennig TGP Cymru**, y bobl gymwynasgar yn Rhwydwaith Maethu Cymru a'r doniau disglair yn yr **adran gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe**. Diolch i bawb a helpodd gyda'r rhifyn hwn (a rhifynnau blaenorol) o'r canllawiau!



Canolfan
Gyfreithiol
y Plant
Cymru

Children's
Legal
Centre
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government